

Cwestiynau Cyffredin Cwpan y Byd Digartref

Ymarferoldeb

Pryd mae Cwpan y Byd Digartref?

Digwyddiad blynyddol yw'r twrnamaint, ac eleni fe'i cynhelir yng Nghaerdydd rhwng 27 Gorffennaf a 3 Awst. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Ninas Mecsico y llynedd.

Ble yng Nghaerdydd fydd y twrnamaint?

Cynhelir 17eg Cwpan y Byd Digartref ym Mharc Bute Caerdydd, yng nghanol y brifddinas.

Oes angen tocynnau ar gyfer y digwyddiad?

Nac oes, ni fydd system docynnau a bydd y digwyddiad am ddim.

Pam mai Caerdydd sy'n croesawu Cwpan y Byd Digartref eleni?

Arweiniwyd y cynnig i gynnal Cwpan y Byd Digartref 2019 yng Nghaerdydd gan yr actor a'r ymgyrchydd o Gymru, Michael Sheen. Bydd y digwyddiad yn cael ei ddarparu gan Sefydliad Cwpan y Byd Digartref mewn cydweithrediad â Chyngor Dinas Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Sefydliad Clwb Pêl-Droed Dinas Caerdydd, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Grŵp Pobl, Swyddfa Michael Sheen, Working Word, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, PYST, Sefydliad Bevan a Phêl-droed Stryd Cymru. Bydd Cwpan y Byd Digartref Caerdydd 2019 yn creu gwaddol parhaus gyda'r nod o daclo digartrefedd yng Nghaerdydd, a ledled Cymru.

Faint o bobl fydd yn mynd i'r twrnamaint?

Mae'r gynulleidfa'n tyfu'n raddol bob blwyddyn. Yng Nghaerdydd yn 2015, aeth rhwng 50 a 60 mil o bobl yn ystod yr wythnos. Yn Cape Town, cynyddodd hyn i dros 100,000 o bobl, a denwyd yr un faint i Melbourne yn 2008. Yn 2012, aeth 168,000 i weld y twrnamaint yn Ninas Mecsico. Yn ogystal, mae miloedd o bobl yn gwylïo'r ffrwd fyw ac mae miliynau'n dilyn yr hanes ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r digwyddiad yn cael sylw yn y wasg ledled y byd hefyd.

Pa wledydd sy'n cymryd rhan yn Nghwpan y Byd Digartref eleni?

Bydd 51 o wledydd yn cael eu cynrychioli yng Nghwpan y Byd Digartref eleni. Bydd prifddinas Cymru'n croesawu 48 o dimau i gystadlu yng nghystadleuaeth y Dynion/Cymysg, a bydd 16 yng nghystadleuaeth y menywod. Bydd dros 500 o chwaraewyr yn teithio i Gaerdydd ar gyfer yr ŵyl wythnos o hyd.

Ble bydd Cwpan y Byd Digartref y flwyddyn nesaf?

Nid yw'r ddinas ar gyfer 2020 wedi'i chadarnhau eto.

Os oes aelod o'r cyhoedd yn methu â mynd i'r digwyddiad eu hunain, oes modd ei wylïo'n rhywle?

Bydd y gemau ar gael i'w gwylïo ar wefan a sianel YouTube Cwpan y Byd Digartref.

Heblaw am bêl-droed, beth all ymwelwyr ei ddisgwyl?

Yn ogystal â'r pêl-droed bydd Gwyl y Dyn Gwyrdd, sydd wedi cael teitl Gŵyl y Flwyddyn gan BBC 6 Music, yn dod i Gaerdydd am y tro cyntaf i gyflwyno 'Y Ffair' – ardal ar gyfer cerddoriaeth fyw, adloniant i'r teulu, theatr awyr agored, gosodiadau celf a thrafodaeth. Bydd rhestr o enwau mawr yngyd â thalent newydd o sin gerddorol Cymru, wedi'i churadu gan Michael Sheen, yn cael ei chyhoeddi yn yr wythnosau nesaf. Bydd yr enwog Little Folk o ŵyl y Dyn Gwyrdd yn cynnig galaeth o weithdai, anturiaethau a gweithgareddau amrywiol am ddim i blant o dan 12 oed. Cynhelir trafodaethau yn y babell drafod ar y cyd a melin drafod annibynnol Sefydliad Bevan, a fydd yn cynnig gofod i siaradwyr adabyddus a'r cyhoedd addysgu ac ymwenedu a materion o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, a gweithio tuag at ddatrysiadau arloesol. Bydd bwyd stryd gan ddarparwyr cyfarwydd i'r rhai sy'n mynychu Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn ychwanegu blas Cymreig arall.

Ble all y cyhoedd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Gwpan y Byd Digartref?

<https://homelessworldcup.org/>

Cefndir

Beth yw Cwpan y Byd Digartref?

Elusen unigryw ac arloesol yw Sefydliad Cwpan y Byd Digartref sy'n defnyddio pêl-droed i ysbrydoli pobl ddigartref i newid eu bywydau drwy rym pêl-droed, ac i newid canfyddiadau'r cyhoedd am ddigartrefedd a materion cysylltiedig. Mae Cwpan y Byd Digartref yn gweithredu drwy rwydwaith o dros 70 o bartneriaid rhyngwladol er mwyn cefnogi rhaglenni pêl-droed. Mae'n cynnal twrnamaint pêl-droed rhyngwladol o safon byd-eang bob blwyddyn ar gyfer timau cenedlaethol o ddynion a menywod digartref.

Beth yw hanes Cwpan y Byd Digartref?

Mel Young a Harald Schmied sefydlodd Cwpan y Byd Digartref ar y cyd ar ôl cael eu hysbrydoli mewn cynhadledd am ddigartrefedd yn 2001. Roedden nhw eisiau newid bywydau pobl ddigartref dros y byd, ac roedden nhw o'r farn y gallai pêl-droed eu helpu i wneud hynny. Cynhaliwyd y twrnamaint Cwpan y Byd Digartref cyntaf yn Graz yn 2003, ac mae'r digwyddiad a'r rhwydwaith wedi bod yn tyfu'n raddol ers hynny, gan arloesi ym maes Chwaraeon a Datblygu.

Sut mae pêl-droed yn helpu pobl ddigartref?

Mae digartrefedd yn gorfodi pobl i mewn i fyd o unigedd, sy'n effeithio ar eu gallu i rannu, cyfathrebu, a gweithio gydag eraill. Pan fo person digartref yn cymryd rhan mewn pêl-droed, maen nhw'n tyfu perthnasau ac yn dod yn gydchwaraewyr sy'n dysgu ymddiried a rhannu. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i fynd i'r sesiynau hyfforddi a'r gemau, i fod yn brydlon, ac i fod yn barod i gymryd rhan. Maen nhw'n teimlo eu bod yn rhan o rywbeth mwy na nhw eu hunain. Mae'r ymdeimlad o rymuso a geir wrth gymryd rhan mewn pêl-droed stryd yn helpu pobl ddigartref i weld eu bod nhw'n gallu newid eu bywydau.

Mae pêl-droed hefyd yn gwella agweddau eraill ar fywyd unigolyn, fel iechyd corfforol a hunan-barch, a thrwy brofiad rydyn ni wedi gweld ei fod yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â phobl ddigartref sydd heb ymateb i ddulliau eraill o ymyrraeth.

Pam cynnal twrn maint Cwpan y Byd Digartref?

Cwpan y Byd Digartref yw'r uchafbwynt i'r partneriaid cenedlaethol ac mae'n rhoi nod uchelgeisiol i chwaraewyr. Mae'r profiad yn drawsnewidiol i'r rhai sy'n cymryd rhan ac i'r gynulleidfa, ac mae'n herio agweddau tuag at ddigartrefedd. Mae'r chwaraewyr yn cynrychioli eu gwlad o flaen cynulleidfa gefnogol, ar ôl cael eu dieithrio o gymdeithas yn y gorffennol. Maen nhw'n cael cyfle i deithio, ynghyd â chwrdd â phobl sydd wedi wynebu heriau tebyg. Mae'r twrn maint wedi'i ddylunio i fod yn gystadleuol, ond mae ei strwythur arbennig a'i bwyslais ar chwarae teg yn golygu bod pawb yn chwarae tan y diwrnod olaf. Mae sawl lefel o gystadleuaeth a thlysau i'w hennill, gan roi ymdeimlad o gyflawniad i'r timau ar bob lefel o sgil.

Mae Cwpan y Byd Digartref hefyd yn herio agweddau cymdeithasol tuag at bobl ddigartref. Mae ymchwil gan Brifysgol La Trobe wedi dangos ei fod yn effeithio ar agweddau aelodau'r gynulleidfa tuag at bobl ddigartref er gwell, a hynny'n sylweddol.

Beth yw lefelau gwahanol y gystadleuaeth?

Mae dau gategori cyffredinol, sef dynion/cymysg a menywod. Mae strwythur twrn maint Cwpan y Byd Digartref yn seiliedig ar rygbi saith bob ochr, gyda thair rownd i'r gystadleuaeth a sawl tlws gwahanol i'w hennill ar y diwrnod olaf.

Y Rownd Gyntaf

Ar ôl dewis y grwpiau, bydd pob tîm yn chwarae yn erbyn y timau eraill yn eu grŵp unwaith. Bydd eu safle cymharol yn y grŵp rhagarweiniol yn pennu ym mha grŵp byddan nhw'n chwarae yn yr Ail Rownd.

Ail Rownd

Bydd pob tîm yn chwarae yn erbyn pob tîm yn eu grŵp unwaith ar ffurf rownd-robin. Ar ôl chwarae holl gemau'r grŵp, bydd safle terfynol y timau yn pennu rownd olaf y gystadleuaeth. Bydd y timau sy'n gorffen yn y safle cyntaf neu'r ail safle yn eu grŵp yn mynd ymlaen i chwarae am Gwpan y Byd Digartref (dynion/cymysg) neu Gwpan Menywod y Byd Digartref (menywod). Bydd y rhai sy'n dod yn y trydydd neu'r pedwerydd safle yn eu grŵp yn cystadlu am y tlws uchaf ond un, ac yn y blaen.

Rownd y Tlws

Bydd wyth tîm yn cystadlu am bob tlws, gyda phob cystadleuaeth nawr yn dilyn y ffurf safonol o gemau go-gynderfynol, cyn-derfynol a therfynol. Mae hyn yn cynnwys gosod gemau i bob tîm. Bydd pob tîm yn chwarae tair gêm yn Rownd y Tlws.

Mae strwythur y twrn maint yn sicrhau bod pob tîm yn chwarae gemau tan ddiwrnod olaf y gystadleuaeth. Mae safon y pêl-droed yn amrywio'n sylweddol rhwng y timau, ac wrth i'r twrn maint fynd rhagddo, bydd timau'n chwarae yn erbyn timau sy'n debycach iddyn nhw o ran sgil, sy'n cynnig profiad boddhaus i'r chwaraewyr a'r gynulleidfa fel ei gilydd.

Digartrefedd

Sut mae Cwpan y Byd Digartref yn diffinio digartrefedd?

Diffinnir digartrefedd yn unol â chyd-destun cenedlaethol pob gwlad. Os oes gan wlad ddiffiniad cyfreithiol o ddigartrefedd, caiff hwn ei ddefnyddio i bennu cymhwysedd. Mewn gwledydd sydd heb ddiffiniad cyfreithiol, defnyddir diffiniadau a ddefnyddir gan academyddion neu gyrff anllywodraethol tai lleol.

Mae Cymorth Cymru, corff ymbarél darparwyr digartrefedd, cymorth tai a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn dweud y gellir diffinio digartrefedd fel heb fod â chartref, neu pan fo pobl yn byw mewn tai annigol, anaddas neu beryglus.

Gall hyn gynnwys:

- Pobl sy'n cysgu ar y stryd
- Pobl mewn hosteli, llochesi neu lety dros dro
- Pobl sy'n aros gyda ffrindiau neu deulu (e.e. cysgu ar soffas)
- Pobl mewn llety annigol (e.e. heb lawer neu heb hawliau cyfreithiol)
- Pobl mewn llety anaddas neu annigonol (e.e. ansawdd isel neu orlawn)
- Pobl mewn perygl o drais neu gamdriniaeth yn eu cartref

Faint o bobl ddigartref sydd yng Nghaerdydd?

Yn ôl Cyngor Caerdydd, ym mis Ebrill 2019 roedd 638 o aelwydydd mewn llety dros dro, a 70 o bobl yn cysgu ar y stryd.

Faint o bobl ddigartref ydych chi'n amcangyfrif sydd yng Nghymru?

Yn seiliedig ar ystadegau diweddar a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru:

- Mae dros 20,000 o aelwydydd yn ddigartref neu mewn perygl o ddigartrefedd bob blwyddyn yng Nghymru. (Yn ystod 2017/18)
- Mae dros 2000 o aelwydydd mewn llety dros dro ledled Cymru – mae 800 o'r rhain yn deuluoedd. (Ar 31 Mawrth 2017)
- Mae dros 150 o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghymru bob nos. (Ar 8/9 Tachwedd 2018)

[Ystadegau](#) digartrefedd swyddogol Llywodraeth Cymru 2017/18.

Pa elusennau sy'n rhan o'r twrnamaint?

Mae sawl elusen yng Nghymru ac o gwmpas y byd yn rhan o'r twrnamaint. Eu prif ffocws yw'r gefnogaeth a roddir i chwaraewyr cyn, yn ystod ac ar ôl y twrnamaint. Mae'r holl chwaraewyr yn y twrnamaint eisoes yn cael eu cefnogi gan sefydliadau arbenigol yn eu gwlad gartref, gan gynnwys timau Cymru. Gellir gofyn am fanylion yr elusennau hynny (a elwir yn bartneriaid) drwy gysylltu â Sefydliad Cwpan y Byd Digartref. Gellir dod o hyd i'r elusennau sy'n cefnogi timau Cymru drwy gysylltu â Phêl-droed Stryd Cymru, sef y brif elusen sy'n cefnogi tîm Cymru.

Yn ogystal, mae Michael Sheen a'r partneriaid ar gyfer y twrnaint yma wedi bod yn gweithio gydag elusennau ar draws Cymru sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaethau, polisi ac ymgysylltu â phobl sydd mewn perygl o brofi digartrefedd neu sy'n ei brofi. Cynhaliwyd hyn yn bennaf drwy gydweithio gyda Chymorth Cymru, corff ymbarél ar gyfer sefydliadau tai a digartrefedd ledled Cymru. Bydd modd i wylwyr hefyd ymgysylltu â'n helusennau arbenigol ar safle'r twrnaint. Ni fydd elusennau'n codi arian yn y twrnaint.

A all pobl sy'n profi digartrefedd neu allgáu cymdeithasol ar hyn o bryd fynd i'r twrnaint os nad ydyn nhw'n chwarae?

Wrth gwrs. Mae'r digwyddiad am ddim, ac mae croeso i bawb.

Y twrnaint a'r chwaraewyr

Pwy sy'n gymwys i gystadlu yn y twrnaint?

Mae'n rhaid i gyfranogwyr fod yn 16 oed o leiaf, heb gymryd rhan mewn twrnaintiau Cwpan y Byd Digartref yn y gorffennol, ac yn ateb un o'r meini prawf canlynol:

- Wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn unol â'r diffiniad cenedlaethol o ddigartrefedd
- Yn gwneud eu prif incwm bywoliaeth drwy werthu papurau ar y stryd
- Yn geiswyr lloches sydd heb statws lloches wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd, neu a oedd yn geiswyr lloches ond sydd wedi cael statws preswyllo
- Mewn proses adsefydlu cyffuriau/alcohol ac wedi bod yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

Faint o dimau all pob gwlad eu cynnig?

Gall pob gwlad wneud cais i anfon tîm dynion/cymysg a thîm menywod.

Faint o chwaraewyr sy'n cael eu dewis ar gyfer y tîm cenedlaethol?

Caiff tîm(au) cenedlaethol pob gwlad eu dewis gan y partneriaid cenedlaethol yn y wlad honno. Mae Partneriaid Cenedlaethol yn recriwtio cyfranogwyr gan ledaenu'r neges, er enghraifft drwy hysbysebion mewn papurau stryd a phosteri mewn hostelau. Yna, maen nhw'n dewis tîm o wyth chwaraewr (neu ddau dîm gydag wyth chwaraewr yr un, os ydyn nhw'n dod â thîm dynion/cymysg a thîm menywod), gan ystyried lefel yr ymroddiad, agwedd bersonol a gallu o ran chwaraeon.

Ble bydd y twrnaint yn cael ei gynnal?

Caiff stadiymau dros dro â seddi eu hadeiladu at y pwrpas mewn lleoliad prysur yng nghanol y ddinas, a chynhelir y gemau ar gaeau pêl-droed stryd caeëdig sydd wedi'u hadeiladu at y pwrpas. Eleni, caiff ei gynnal ym Mharc Bute, Caerdydd.

Sut caiff y dinasoedd eu dewis?

Mae ardaloedd yn gwneud cais i groesawu Cwpan y Byd Digartref, a chânt eu gwerthuso'n seiliedig ar feini prawf, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Sefydliad Partner Cenedlaethol Cwpan y Byd Digartref gweithgar yn y wlad
- Sicrwydd fisas ar gyfer y gwledydd sy'n cymryd rhan
- Trefnydd lleol cryf gyda chefnogaeth gan y llywodraeth a'r busnesau perthnasol angenrheidiol
- Lleoliad proffil uchel a llety digonol
- Potensial i gael effaith barhaol

Faint o dimau sy'n cymryd rhan?

Fel arfer, gwahoddir 48 tîm dynion/cymysg, ac 16 tîm menywod i'r twrnamaint.

Faint o gaeau fydd yno?

Yn swyddogol, mae tri chae twrnamaint. Ond bydd rhai caeau i ymarfer hefyd ar gael i'r timau ar y safle.

Beth yw rheolau'r gêm?

Mae'r rheolau llawn ar gael yma

<https://homelessworldcup.org/wp-content/uploads/2019/04/cardiff-2019-rules.pdf>

Faint o chwaraewyr fydd ar bob tîm?

Bydd wyth chwaraewr, un hyfforddwr a rheolwr gan bob tîm.

A fydd dynion a menywod yn chwarae yn erbyn ei gilydd?

Bydd dwy gystadleuaeth yn cael ei chynnal ar yr un pryd: Cystadleuaeth y Dynion/Cymysg a chystadleuaeth y Menywod. Dim ond menywod all chwarae yn nhimau'r menywod, ond mae modd cael timau cymysg ar gyfer cystadleuaeth y dynion/cymysg.

Pa wobrau fydd ar gael?

Mae chwe thlws yng Nghystadleuaeth y Dynion/Cymysg, a dau yng Nghystadleuaeth y Menywod. Nid yw'r tlysau wedi'u henwi eto.

Allan nhw gymryd rhan yng Nghwpan y Byd Digartref eto y flwyddyn nesaf?

Dim ond unwaith y gall chwaraewyr gystadlu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ein cyfleoedd ar gael i gymaint o bobl â phosib. At hynny, un o amcanion y digwyddiad yw helpu chwaraewyr i drosglwyddo o ddiartrefedd, a sicrhau na fydd angen iddynt gymryd rhan yn y digwyddiad mewn blynyddoedd i ddod.

Cyllid

Beth yw rôl Michael Sheen yng Nghwpan y Byd Digartref Caerdydd 2019?

Michael Sheen yw Cadeirydd Caerdydd 2019, ac ef arweiniodd ar y cais i ddod â'r twrnamaint i Gymru. Fel un o Noddwyr Pêl-droed Stryd Cymru, dechreuodd y trafodaethau'n gynnar yn 2017 am gynaliadwyedd a thwf hirdymor y sefydliad. Yn y drafodaeth honno, cynigiwyd bod y partneriaid strategol sy'n rhan o Bêl-droed Stryd Cymru (Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Chwaraeon Cymru, Grŵp Pobl, Tai Cymunedol Cymru a Michael Sheen) yn edrych ar y posibilrwydd o ddod â'r twrnamaint i Gymru, a defnyddio'r twrnamaint fel bachyn i gael cyllid, ymwbyddiaeth gyhoeddus a chefnogaeth strategol. Cyflwynwyd y cais terfynol yn 2018 ar ôl blwyddyn o waith dan arweiniad tîm Michael Sheen, a ariannwyd ganddo ef, i ddatblygu cais a oedd yn nodi pwy fyddai'n talu amdano, sut byddai'n creu effaith waddol ddyfnach na'r twrnameintiau blaenorol a phwy fyddai'r partneriaid hollbwysig wrth gynnal y twrnamaint gorau posib.

Mae Michael wedi arwain ar sawl darn i'r wasg ers cyhoeddi'r cais, gan gynnwys perfformiad sy'n enwog erbyn hyn, a wylwyd dros 40 miliwn o weithiau ar y cyfryngau cymdeithasol, wrth iddo gyhoeddi cais Cymru ar The One Show ar y BBC. Ers i'r cais gael ei gymeradwyo ddiwedd haf 2018, mae Michael wedi ariannu ei dîm i barhau i weithio ar godi'r arian, datblygu'r twrnamaint a threfnu cyfleoedd gyda'r cyfryngau er mwyn cysylltu â'r cyhoedd. Michael sydd â'r gair olaf ar yr holl gynlluniau, ond rydym yn gweithio fel tîm gyda'n partneriaid, gan wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd i gynghori Michael ar sut byddwn ni'n darparu'r profiad twrnamaint gorau i'r chwaraewyr a'r gwylwyr. Bydd Michael yn bresennol yn y twrnamaint, a bydd yn ymddangos mewn darnau i'r wasg dros dri mis i hyrwyddo'r twrnamaint. Nid yw Michael wedi gwneud unrhyw arian o hyn – ond mae wedi gwario dros chwe ffigur o'i arian ei hun ar y tîm a phartneriaid cyn y twrnamaint.

Pwy sy'n ariannu Cwpan y Byd Digartref?

Cymysgedd o noddwyr a chwmnïau preifat, gan gynnwys pêl-droedwyr adnabyddus, cantorion, actorion, dyngarwyr ac eraill. Ni chodwyd unrhyw arian gan y cyhoedd na thrwy arian cyhoeddus. Bydd wal o noddwyr i'w gweld yn y twrnamaint i ddangos y rhestr derfynol o noddwyr i'r cyhoedd.

Oes rhywfaint o'r arian yn mynd tuag at daclo digartrefedd yng Nghymru?

Oes. Mae cyfran o'r arian a godir yn mynd tuag at waith parhaus Pêl-droed Stryd Cymru am y tair blynedd nesaf, gan greu gwaddol dwfn yn eu gwaith ar draws y gogledd a'r de. Mae rhywfaint o'r arian a gaiff ei wario ar y twrnamaint hefyd yn canolbwyntio ar daclo digartrefedd, drwy godi lefelau ymgysylltiad a thrafodaeth, gan sicrhau y defnyddir y llwyfan i wthio am alwadau, gwasanaethau a champau penodol. Mae hyn y tu hwnt i'r hyn mae Cwpan y Byd Digartref yn canolbwyntio arno fel arfer. Yn ogystal, os yw'r twrnamaint yn gwneud elw, drwy werthiannau yn y twrnamaint, bydd yr arian hwnnw'n cael ei roi i gefnogi ymyriadau digartrefedd yng Nghymru.

Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni drwy ei gynnal yng Nghaerdydd?

Rydym ni eisiau i'r chwaraewyr a'r gwylwyr deimlo croeso Cymreig go iawn. Dewiswyd Caerdydd am amryw o resymau ymarferol i'r 50 gwlad fydd yn cymryd rhan, ond byddwn ni'n gwahodd diddanwyr, siaradwyr, cyflenwyr ac eraill o Gymru gyfan i arddangos y gorau o ddiwylliant Cymru.

Pa effaith ydych chi'n meddwl y bydd yn ei chael ar y chwaraewyr?

Mae'r effaith ar chwaraewyr yn newid bywydau, nid yn unig yn ystod y twrnamaint ei hun, ond y misoedd o hyfforddiant cyn cael eu dewis i chwarae, ac yna bod yn rhan o dîm yn cynrychioli eu

gwlad. Mae'n dangos i chwaraewyr eu bod yn gallu cyflawni hyn, ac felly eu bod nhw'n gallu cyflawni unrhyw beth. Fel rhan o'r tîm, ni fyddan nhw ar eu pennau eu hunain yn wynebu eu heriau bellach, ond bydd ganddyn nhw gyfoedion sydd hefyd yn credu ynddyn nhw, ac sydd yno i'w cefnogi drwy bopeth. Maen nhw'n rhan o rywbeth arbennig iawn.

Iechyd y cyhoedd a'r chwaraewyr

Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y digwyddiad fynediad at wasanaethau iechyd brys yn ystod eu hamser yng Nghaerdydd?

Mewn achosion brys, bydd unrhyw un sy'n rhan o Gwpan y Byd Digartref yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn yr un ffordd ag unrhyw ymwelydd arall â Chaerdydd o dramor.

Ydy Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod cynghori trefnwyr y twrnaint ar unrhyw faterion posib a allai godi?

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chwpan y Byd Digartref i ystyried unrhyw faterion iechyd y cyhoedd posib yn ofalus. Ni nodwyd unrhyw faterion iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar unrhyw un heblaw am yr unigolion sy'n cymryd rhan y nodwyd bod angen trefniadau arbennig ar eu cyfer.

Llety

Ble bydd y chwaraewyr yn aros yn ystod wythnos Cwpan y Byd Digartref?

Bydd y chwaraewyr yn aros yn llety Talybont, sef preswylfa fwyaf Prifysgol Caerdydd.

A fydd yr holl chwaraewyr yn aros gyda'i gilydd?

Byddan, bydd pawb ar un safle. Bydd yr holl chwaraewyr yn aros mewn tai ym mhreswylfeydd Porth Talybont, Gogledd Talybont a De Talybont.

Pa gyfleusterau fydd ar gael iddynt yn ystod y nos?

Bydd ein neuaddau chwaraeon a'n gofodau cymdeithasol wedi'u troi'n ardaloedd ymlacio, gofodau cyfarfod a lleoliadau ar gyfer adloniant i'r cyfranogwyr. Bydd ganddynt hefyd fynediad at fwyd o'r bore bach tan 10 o'r gloch y nos, er mwyn caniatáu ar gyfer amserlenni'r gemau a chwaraeir drwy gydol y dydd. Bydd ein caeau ar gael i'r timau sy'n dymuno ymarfer ychydig ar y campws, a bydd cyfleusterau'r ganolfan chwaraeon ar gael iddyn nhw hefyd. Bydd cyfleusterau eraill hefyd ar gael, fel yr ystafell olchi dillad at ddibenion personol.

Brandio

Pwy sy'n gyfrifol am frandio twrnaint Caerdydd?

Mae gan Gaerdydd 2019 nifer o bartneriaid arbenigol yn arwain ar y gwaith o feddwl, dylunio a darparu ein gwaith brandio, gwisgoed a chyhoeddusrwydd. Wrth graidd hyn mae Michael Sheen, sy'n rhoi cyfarwyddwyd, ac yn gosod y naratif a'r gyllideb. Yna, caiff y gweithgareddau eu cydlynu gan gwmni Cysylltiadau Cyhoeddus Working Word o Gaerdydd, gyda chefnogaeth ein partneriaid Cyngor Caerdydd, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Sefydliad Cwpan y Byd Digartref.

A yw'r Gymraeg yn chwarae rôl bwysig yn y twrnaint?

Ydy. Roedd Michael Sheen a'r partneriaid yn teimlo ei bod yn bwysig y dylai'r twrnaint ddangos y croeso Cymreig gorau posib, a bod cyflwyno'r Gymraeg a'r diwylliant ehangach yn bwysig i'r gwylwyr a'r chwaraewyr. Mae ein perfformiadau cerddorol yn cynnwys nifer o berfformwyr Cymraeg, ac rydyn ni'n gweithio gyda nifer o bartneriaid yn y cyfryngau Cymraeg. Rydyn ni hefyd yn trefnu sesiynau dysgu Cymraeg i'n hymwelwyr rhyngwladol.

Oes siaradwyr Cymraeg yn nhîm Cymru?

Mae siaradwyr Cymraeg wedi bod mewn twrnaintiau yn y gorffennol, ond fyddwn ni ddim yn gwybod am 2019 tan i'r timau gael eu dewis ym mis Mehefin, ond mae'n debygol iawn. Bydd y tîm yn cael ei gyhoeddi ar The One Show ar BBC 1 ddechrau mis Mehefin.

Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Beth yw rhaglen wirfoddoli Cymdeithas Bêl-droed Cymru?

Bydd rhaglen wirfoddoli Caerdydd 2019 yn cael ei rheoli gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru, a bydd yn gobeithio recriwtio hyd at 200 o wirfoddolwyr i helpu i gynnal y digwyddiad. Does dim angen i bobl fod wedi gwirfoddoli o'r blaen. Mae ganddon ni ystod eang o rolau ar gael, ynghyd â rolau arbenigol, ac rydyn ni'n pwysleisio mai'r hyn sydd bwysicaf yw gwên ar eich wyneb, agwedd gadarnhaol a'ch bod ar gael yn y dyddiau cyn y digwyddiad ac yn ystod wyth diwrnod y gystadleuaeth, ac i ymrwymo i wneud hwn y Cwpan y Byd Digartref gorau erioed.

Bydd y rhaglen wirfoddoli yn gweithio gyda phartneriaid fel Pêl-droed Stryd Cymru a sefydliadau eraill sy'n ymgysylltu â phobl digartref, i flaenoriaethu ac annog y rhai sydd wedi profi digartrefedd yn y gorffennol i wirfoddoli.

Byddwn yn darparu'r cymorth a'r hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau eu bod yn cael profiad cadarnhaol, ynghyd â datblygu eu sgiliau a'u hyder drwy ystod o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a dysgu, gyda'r gobaith o helpu i leihau unrhyw unigedd maen nhw wedi bod yn ei brofi o bosib.

Bydd y rhaglen wirfoddoli yn cael ei chefnogi gan Gydlynnydd Gwaddol a fydd, ar ôl y twrnaint, yn adeiladu ar y buddion, yr effeithiau a'r perthnasau sydd wedi'u sefydlu yn ystod y digwyddiad. Ar ôl y digwyddiad, rydyn ni eisiau cadw lefelau ymgysylltu uchel, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd y rhan fwyaf o'n gwirfoddolwyr yn parhau â'u taith wirfoddoli ac yn cael swydd gyflogedig yn y pen draw.

Beth mae'n gobeithio'i gyflawni?

Nod y rhaglen wirfoddoli yw recriwtio a hyfforddi grŵp o wirfoddolwyr o Gymru gyfan a fydd yn darparu profiad a gwasanaeth ardderchog ar gyfer holl ymwelwyr, timau a chwaraewyr Twrnamaint Cwpan y Byd Digartref. Drwy'r rhaglen wirfoddoli, a'r digwyddiad ei hun, rydyn ni eisiau dod â gwirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd at ei gilydd i geisio newid canfyddiadau ac i godi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd.

Rydyn ni eisiau sicrhau nad yw'r profiad gwirfoddoli yn gorffen ar yr un pryd â'r digwyddiad. Rydyn ni eisiau cysylltu pob gwirfoddolwr gyda'r sefydliadau priodol, fel bod ganddynt gyfle yn y dyfodol i barhau i wirfoddoli mewn digwyddiadau chwaraeon neu yn eu cymuned leol.

Bydd y Cydlynnydd Gwaddol yn parhau i ymgysylltu â'r rheini sydd o gefndir digartref i adeiladu ar eu gallu ac i ennill sgiliau newydd neu gryfhau'r rhai sydd ganddyn nhw yn barod. Byddant yn gweithio gyda'r gwirfoddolwyr hyn yn benodol, gyda'r nod o gynnig cyfleoedd iddynt barhau i ddatblygu eu hiechyd a'u llesiant, eu rhwydweithiau cymdeithasol, eu hyder a'u sgiliau drwy ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol.

Sut mae pobl yn dod yn wirfoddolwyr?

Bydd pob rôl wirfoddol yn cael ei hysbysebu drwy borth Gwirfoddoli y Gymdeithas Bêl-droed

<https://volunteer.fawtrust.wales/>

Gofynnir i'r rhai sydd â diddordeb lenwi ffurflen gais fer. Yna byddant yn cael gwybod os ydyn nhw wedi bod yn llwyddiannus.

Pa fath o bethau fydd y gwirfoddolwyr yn eu gwneud yn ystod Cwpan y Byd Digartref?

Bydd ein gwirfoddolwyr yn tywys timau, yn dyfarnu, yn gynorthwyywyr cae, yn dal peli ochr y cae, yn cyfarch, yn gwerthu rhaglenni, yn gwerthu nwyddau, yn cynorthwyo â gwybodaeth, yn cario baner ac yn cyflwyno medalau. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu fel bod yr holl wirfoddolwyr yn barod i gyflawni eu rôl.

Yn bwysicach na dim, bydd y gwirfoddolwyr yn cynnig croeso cynnes a Chymreig! Rydyn ni'n annog pawb – waeth beth yw eich cefndir neu'ch profiad – i wneud cais i wirfoddoli a bod yn rhan o rywbeth pwysig iawn.

Rhanddeiliaid y twrnamaint a'r broses gaffael

Pwy yw rhanddeiliaid allweddol y twrnamaint?

Mae nifer o sefydliadau yn cefnogi'r twrnamaint, ond mae rhai yn allweddol er mwyn darparu twrnamaint llwyddiannus i'r chwaraewyr, y gwylwyr a'r effaith gymdeithasol rydyn ni'n bwriadu ei chael. Mae hyn yn cynnwys: Swyddfa Michael Sheen, Cyngor Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Working Word, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Pyst, Canolfan Cydweithredol Cymru, Grŵp Pobl, Sefydliad Bevan, Cymorth Cymru, Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Pêl-droed Stryd Cymru a Sefydliad Cwpan y Byd Digartref.

Sut enillodd Caerdydd (Cardiff 2019 Homeless World Cup Ltd) hawl i gynnal Cwpan y Byd Digartref yng Nghaerdydd?

Yn 2017 gwnaethom gais mewn proses ymgeisio gystadleuol, a churo dinasoedd eraill ledled y byd i gael yr hawl i'w gynnal yn 2019.